Lansiwyd wefan newydd Ysgol Abererch

LANSIWYD y wefan www.ysgolabererch.org yn ddiweddar mewn prynhawn lansio a drefnwyd gan y cyngor ysgol. Yn y llun gwelir Jen Roberts (o gwmni Delwedd fu'n adeiladu'r wefan) gyda Susan Jones (cadeirydd y llywodraethwyr), cynrychiolwyr o rai o'r 17 cwmni sydd wedi noddi'r wefan, rhieni ac aelodau o'r cyngor ysgol. Hefyd yn y llun mae dwy o ddisgyblion yr ysgol, Mia Helen Roberts a Caitlin Thomas

picture special

Plant Ysgol Abererch yn archwilio tystiolaeth!

YN ddiweddar ymwelodd sioe deithiol Gwyddoniaeth gan Cwmni Techniquest â Ysgol Abererch.

Cafodd y plant gyfle i ddysgu am sgiliau pobl sydd yn gweithio fel archwilwyr mân droseddau (crime-scene investigators).

Roedd y plant yn cael cyfle i archwilio tystiolaeth fel olion bysedd i geisio canfod pwy oedd wedi dwyn o'r plas!

Roedd pawb wedi cael amser da ac wedi dysgu llawer o wahanol bethau newydd mewn ffordd hwyliog braf.